

Nam ar y golwg

Cyfeiria nam ar y golwg at golli golwg nad oes modd ei gywiro trwy wisgo sbectol. Gall unigolion sydd wedi colli rhywfaint o'u golwg ddewis cofrestru'n ddall neu sy'n rhannol ddall yn dilyn asesiad gan offthalmolegydd:

Gall unigolion a gofrestrwyd yn ddall amrywio o'r rhai sydd heb ganfyddiad golau i'r rhai nad ydynt ond yn gallu darllen y llythyren gyntaf ar siart optegydd o dri metr neu lai.

Nid yw unigolion y cofrestrwyd bod ganddynt olwg rhannol ond yn gallu darllen y llythyren gyntaf ar siart optegydd rhwng tri metr neu chwe metr.

Angen unigolyn gyda golwg llawn i ddarllen y llythyren gyntaf ar ben siart llygad o ugain metr.

Mae nifer o gyflyrau llygaid sy'n effeithio ar bobl mewn ffyrdd unigol iawn. Mae gan RNIB wledd o wybodaeth, gan gynnwys rhestr o gyflyrau llygaid a'u heffeithiau posibl.

Cynghorion Defnyddiol i Staff Academaidd

Ystyriwch fod cyflwyniadau'n digwydd mewn ffordd sy'n caniatáu rhoi enw i lais

Llefarwch unrhyw wybodaeth sydd wedi ei hysgrifennu, ei darlunio neu ei dangos yn ystod sesiynau

Gwiriwch sut yr hoffai'r myfyriwr gael adborth

Trafodwch â'r myfyriwr y problemau y gallai gwaith grŵp a chyflwyniadau eu creu

Byddwch yn ymwybodol o beryglon yn yr ystafell ddosbarth

Os ydych yn bresennol, byddwch yn ymwybodol fod ci tywys yn anifail sy'n gweithio ac ni ddylid mynd ato a'i anwesu heb ganiatâd y perchennog; sicrhewch fod yr holl fyfyrwyr eraill yn ymwybodol o hyn hefyd

Trefnwch y seddau er mwyn i'r unigolyn eistedd a'r golau y tu ôl iddo/i er mwyn i'r golau ddisgleirio ar eich wyneb

Os nad oes gan y myfyriwr Gynorthwyydd Cymorth Ymarferol (PSA) gydag ef/hi ac y teimlwch fod angen ei d/thywys wrth symud o gwmpas yr ystafell neu'r adeilad, holwch nhw a hoffent gael cymorth trwy gynnig gydio yn eu braich a disgrifio'r llwybr ac unrhyw beryglon

Am ragor o wybodaeth, ewch i www.rnib.org.uk

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch a'ch Cydlynnydd Cymorth Dysgu